

Cylchlythyr | Circular

Datblygu Strategaeth Addysg Uwch ar gyfer Cymru

Dyddiad: 30 Medi 2016
Cyfeirnod: W16/33HE
Ar gyfer: Penaethiaid darparwyr addysg uwch yng Nghymru a phartïon eraill sydd â diddordeb

Ymateb erbyn: **04 Tachwedd 2016**
Ymatebion i: sheridan.nott@hefcw.ac.uk

Cyswllt:

Enw:	Celia Hunt/Steve Williams
Rhif ffôn:	029 2085 9730/029 2085 9744
E-bost:	celia.hunt@hefcw.ac.uk steven.williams@hefcw.ac.uk

Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno ymgynghoriad ar strategaeth addysg uwch ddrafft ar gyfer Cymru sydd wedi cael ei pharatoi i gyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn fformat hwylus arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad strategaeth addysg uwch ddrafft ar gyfer Cymru sydd wedi cael ei pharatoi i gyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Datblygu'r Strategaeth AU ddrafft

2. Mae CCAUC wedi cael cylch gorchwyl gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau blaenorol ym mis Mawrth 2016 i 'weithio mewn partneriaeth â darparwyr i ddatblygu Strategaeth ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru yn edrych ymlaen dros y ddegawd nesafⁱ. Dylid cyflwyno drafft cyntaf y Strategaeth i Ysgrifennydd y Cabinet erbyn diwedd mis Rhagfyr 2016.
3. Cyfeiriwyd at y Strategaeth AU arfaethedig drwy gydol y llythyr gorchwyl gydag amrywiaeth o feysydd polisi i'w cynnwys, ac roedd rhai ohonynt yn eithaf manwl ac eraill ar lefel uchel. Hefyd, roedd rhai cyfeiriadau'n ymwneud yn glir â pherfformiad y sector ac eraill yn benodol gysylltiedig â CCAUC. Yn dilyn yr etholiad, cafwyd esboniad pellach mewn trafodaeth ddilynol gydag Ysgrifennydd newydd y Cabinet. Daethpwyd i gytundeb y dylai'r strategaeth fod am gyfnod o ddeng mlynedd hyd at ddiwedd 2026; ar lefel uchel; ac yn seiliedig ar y saith amcan llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015ⁱⁱ (y Ddeddf). Mae'r Strategaeth Addysg Uwch ddrafft hon ar gyfer Llywodraeth Cymru.
4. Er nad yw darparwyr addysg uwchⁱⁱⁱ yn dod o dan ddarpariaethau'r Ddeddf, mae'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i gyrff cyhoeddus fel CCAUC, yn ogystal â Llywodraeth Cymru ei hun. Y bwriad y tu ôl i'r strategaeth ddrafft yw dangos sut mae'r system addysg uwch yng Nghymru'n diwallu anghenion Cymru ar hyn o bryd a sut gallai ddiwallu'r anghenion hyn ymhellach yn ystod y deng mlynedd nesaf, fel y nodir yn y Ddeddf. Hefyd mae'r strategaeth ddrafft yn cydnabod rôl ryngwladol allweddol darparwyr addysg uwch Cymru a'r manteision mae hynny'n eu sicrhau i Gymru.
5. Gan ystyried y canllawiau hyn, a thrwy gynnal cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol, mae'r dull canlynol o weithredu wedi cael ei roi ar waith er mwyn datblygu'r strategaeth: sef
 - Dylai fod am gyfnod o ddeng mlynedd;
 - Ar lefel uchel yn fwriadol;
 - Yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
 - Yn canolbwyntio ar y galw yng Nghymru am addysg uwch yn hytrach na'r cyflenwad;
 - Yn ymwneud â 'beth' ac nid 'sut';
 - Yn gynhwysol o ran addysg bellach ond heb fod yn benodol yn ei sylw, wrth i ni aros am ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad o Oruchwylio Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol yng Nghymru^{iv};

- Yn cael ei chefnogi gan strategaethau cyrff eraill, sef yr asiantau darparu (gan gynnwys strategaeth gorfforaethol newydd CCAUC sydd i gael ei datblygu ar gyfer mis Ebrill 2017).
6. Yn ysbryd cydweithredu, ym mis Gorffennaf, cyfarfu swyddogion CCAUC â Phrifysgolion Cymru, Colegau Cymru ac NUS Cymru i drafod y gwaith o ddrafftio'r Strategaeth. Roedd y rhain yn gyfarfodydd defnyddiol iawn a helpodd gyda sicrhau cefnogaeth i'r cyfeiriad a nodwyd uchod. Hefyd cyfarfu swyddogion CCAUC â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i drafod y gwaith o ddatblygu'r strategaeth.
 7. Ar gyngor Prifysgolion Cymru, mae CCAUC wedi cysylltu ag amrywiaeth o bobl a fyddai'n gallu darparu sylwadau arbenigol ar y drafft cyntaf. Yn benodol, roeddem eisiau sylwadau ar ffynonellau allweddol o dystiolaeth o alw a barn wybodus am gyfeiriad yn y dyfodol. Mae'r ymatebion hynny wedi bod yn sail i ddatblygu'r strategaeth drafft.
 8. Hefyd, er mwyn datblygu'r drafft hwn, aeth swyddogion CCAUC ati i ystyried canlyniadau'r gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid a chrynodeb o fwriadau strategol a dangosyddion perfformiad y prifysgolion yng Nghymru (gan nodi bod llawer o strategaethau sefydliadol yn cwblhau yn 2017). Nododd y swyddogion Ar Gyfer ein Dyfodol - Strategaeth Addysg Uwch yr 21ain Ganrif ar gyfer Cymru^v (2009); y Datganiad Polisi Addysg Uwch^{vi}(2013); Symud Cymru Ymlaen 2016-2021^{vii}, a'r Adolygiad o Gyllid Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru^{viii}.

Y Strategaeth Addysg Uwch Ddrafft

9. Mae drafft cyntaf y strategaeth, yn erbyn y saith amcan llesiant, wedi'i atodi yn **Atodiad A**. Mae hefyd yn cynnwys cyfeiriad at yr egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n ymwneud â'r ymddygiad sy'n sail i'r saith amcan (ee am bwysu a mesur anghenion tymor byr a hir a chynnwys pobl sydd â diddordeb). Mae'n dangos sut mae'r strategaeth wedi cael ei datblygu gan roi ystyriaeth i'r egwyddor.
10. Y nod yw datgan, gyda sylfaen gadarn o dystiolaeth, o dan bob un o'r saith amcan:
 - Beth fydd Cymru ei angen?
 - Beth mae system AU Cymru yn ei ddarparu ar hyn o bryd?
 - Beth arall sydd ei angen (beth yw'r heriau y mae'n rhaid i'r system eu hwynebu?)
11. Mae'r drafft presennol yn cynnwys bwriadau strategol ar gyfer AU yn ystod y deng mlynedd nesaf. Wedi'i hatodi gyda'r drafft mae rhestr o 46 o ddangosyddion cenedlaethol ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Gellid gweld Addysg Uwch yn cyfrannu'n uniongyrchol at rai o'r dangosyddion hyn ond bydd hefyd yn cyfrannu'n anuniongyrchol at lawer. Am y rheswm hwn, nid oes unrhyw fesurau na thargedau ychwanegol wedi'u cynnwys yn y strategaeth drafft hon. Rydym yn awgrymu datblygu mesurau a

thargedau pan fyddwn yn ystyried gyda rhanddeiliaid sut bydd y strategaeth yn cael ei rhoi ar waith.

Ymgynghoriad

12. Gan ystyried canllawiau a chyngor y rhanddeiliaid, rydym wedi paratoi drafft o'r strategaeth AU ar gyfer ymgynghoriad. Rydym yn gwahodd sylwadau ar y drafft. Drafft cyntaf yw hwn ac mae cyfle i'w addasu cyn ei gyflwyno.
13. I ategu proses yr ymgynghoriad, rydym wedi trefnu digwyddiad ymgynghori sydd i gael ei gynnal yng Nghaerdydd ddydd Mercher, 19 Hydref 2016. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn cyflwyno'r brif araith a bydd pawb fydd yn bresennol yn elwa o ragor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cael cyfle i gyfrannu at ddatblygiad pellach y strategaeth. Bydd Sesiwn Panel yn gyfle am gyfraniadau gan rhanddeiliaid. Yn ogystal â chyflwyniadau, bydd y digwyddiad yn cynnwys gwaith gweithdy a'i bwrpas fydd sicrhau cyfraniadau er mwyn adnabod y galw am addysg uwch, yn ogystal â safbwyntiau am y ffordd ymlaen.
14. Gofynnwyd i CCAUC gyflwyno strategaeth ddrafft. Bydd y fersiwn terfynol yn strategaeth addysg uwch Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru ac felly efallai y caiff y drafft ei ddatblygu neu ei ddiwygio ymhellach ar ôl ei gyflwyno.
15. Cofiwch gyflwyno unrhyw sylwadau ar y strategaeth o dan y penawdau canlynol:
 - (a) Oes unrhyw feysydd allweddol o alw posib wedi'u colli (rhowch dystiolaeth i gefnogi eich awgrym os gwelwch yn dda)?
 - (b) Oes unrhyw fylchau o ran sut mae'r system addysg uwch angen ymateb i'r galw sydd wedi'i ddatgan?
 - (c) Ydi'r datganiadau o fwriad yn briodol?
 - (d) Oes unrhyw ddatganiadau o fwriad y dylid eu hychwanegu neu eu dileu?
 - (e) Oes unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, iaith Gymraeg neu gynaliadwyedd perthnasol i'r strategaeth rydych chi wedi'u canfod?
 - (f) Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar y strategaeth ddrafft?
16. Wrth ystyried eich ymatebion i'r ymgynghoriad, sylwer ein bod yn ceisio cadw'r strategaeth ddrafft derfynol yn eithaf cryno, gyda ffocws ar beth gellir ei gyflawni. Yn ychwanegol at wybodaeth am fylchau, byddem yn croesawu ymatebion sy'n nodi meysydd y gellid eu dileu. Mae'r strategaeth yn ymwneud â'r system AU ac mae ar gyfer y sector cyfan, yn hytrach na chanolbwyntio ar anghenion darparwr neu ddarparwyr penodol. Nid ydym wedi cyfeirio at sefydliadau nac asiantaethau unigol sy'n ymwneud o bosib â rhoi'r strategaeth ar waith, oherwydd byddai hynny'n rhoi mwy o sylw i'r 'sut' yn hytrach na'r 'beth'.

Amserlen/ymatebion i

17. Dylid cyflwyno ymatebion i sheridan.nott@hefcw.ac.uk erbyn **dydd Gwener, 4 Tachwedd 2016**. Bydd y strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno gan CCAUC i Ysgrifennydd y Cabinet erbyn diwedd mis Rhagfyr 2016 ar ôl iddi gael ei hystyried gan Gyngor CCAUC yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

Rhagor o wybodaeth

18. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â celia.hunt@hefcw.ac.uk (rhif ffôn 029 2085 9730) neu steven.williams@hefcw.ac.uk (rhif ffôn 029 2085 9744).

i

http://www.hefcw.ac.uk/documents/about_he_in_wales/WG_priorities_and_policies/CCAUC%20Remit%20Letter%202016-17.pdf

ii <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/150623-guide-to-the-fg-act-en.pdf>

iii Rydym yn defnyddio'r term darparwyr addysg uwch i olygu prifysgolion, colegau a darparwyr amgen penodol sy'n darparu addysg uwch.

iv <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/reports/review-of-the-oversight-and-regulation-of-post-compulsory-education-and-training-in-wales/?lang=en>

v <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/forourfuture/?lang=en>

vi <http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/policy-statement/?lang=en>

vii <http://gov.wales/about/programme-for-government/?lang=en>

viii <http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?lang=en>